Gweledigaeth ar gyfer cwricwlwm Ysgol Dyffryn Conwy

Does dim yn fwy hanfodol na bod pob dysgwr sydd yn dod yma i Ysgol Dyffryn Conwy yn:

- cael mynediad at addysg eang a chytbwys o fewn cymuned deuluol a hapus,
- derbyn mynediad cyflawn at y profiadau a'r wybodaeth maent ei hangen er mwyn blaguro,
- datblygu sgiliau amrywiol wrth baratoi ar gyfer byd gwaith,
- barod ar gyfer dysgu gydol oes ac er mwyn bod yn ddinasyddion gweithredol,
- cael eu hysbrydoli i fod yn falch o'u hunaniaeth drwy'r iaith Gymraeg, Cymreictod a dwyieithrwydd.

Gweledigaeth ar y cyd yw'r pedwar diben, a dyma'r dyhead ar gyfer pob dysgwr yma yn Ysgol Dyffryn Conwy. Cwricwlwm yr ysgol yw popeth mae dysgwyr yn ei brofi ar drywydd y pedwar diben.

Er mwyn gwireddu'r rhain byddwn yn:

- ysbrydoli dysgwyr i lwyddo, ffynnu a thyfu drwy osod disgwyliadau uchel i bawb,
- hyrwyddo lles personol a rhoi cyfle i bawb flasu llwyddiant a chyflawni eu potensial,
- yn herio anwybodaeth a ffug-wybodaeth,
- annog dysgwyr i chwarae eu rhan fel dinasyddion effro a beirniadol.

Mae'n fwy na'r hyn rydyn ni'n ei addysgu yn unig. Mae hefyd yn ymwneud â **sut** rydyn ni'n ei addysgu, **beth** rydyn ni'n ei ddysgu ac, yn allweddol, **pam** ydyn ni'n ei addysgu.